



CWTSH MYRDDIN

Rhifyn – 23.10.2017

Noson Agored 2017

Unwaith eto eleni, agorodd Ysgol Bro Myrddin ei drysau i'r cyhoedd ar nos Iau y 19eg o Hydref. Roedd bwrlwm a gweithgareddau amrywiol ym mhob adran o amgylch yr ysgol. I agor y noson cafwyd sgwrs bwrpasol gan y brifathrawes Dr Llinos Jones.

Dathlu Blwyddyn y Chwedlau fu'r Adran Gymraeg yn gwneud eleni gyda'r ffocws ar Chwedl Cantre'r Gwaelod, y ddwy ddraig a Branwen. Cafwyd cyfle i chwilota am rai o brif atyniadau chwedlonol Cymru cyn cystadlu'n frwd i gael y bêl ym Mhair y Dadeni. Hedd Wyn oedd yn haeddu'r sylw yn yr ystafell nesaf wrth i ni gofio am ei fywyd, ei farddoniaeth ac



eisteddfod y Gadair Ddu. Bu disgyblion Blwyddyn 8 wrthi'n brysur yn ysgrifennu yn y Cwtsh Creadigol cyn dilyn hynt a helynt Mr Urdd. Taith fyrlymus. Taith Lenyddol. Taith Chwedlonol oedd hi eleni!

Cafwyd cyfle hefyd i brynu pob math o ddanteithion yn yr Adran Fusnes ac i ddianc i fyd y cyfrifiadur yn yr Adran TGCh.

Unwaith eto yn yr Adran

Wyddoniaeth cafwyd llawer o hwyl. Yn y labordy Bioleg roedd yr ymwelwyr yn cael esboniad am ddarganfod DNA a'r system dreulio gyda phrofion fflamau yn cynhesu'r labordy Cemeg a phrofion clyw a golau yn y labordy Ffiseg. Braff oedd croesawu gymaint o ymwelwyr i'r adran i drafod a mwynhau'r arbrogion.

Cafwyd hwyl a sbri yn yr adran Ieithoedd Modern wrth i'r plant roi cynnig ar archebu bwyd yn y "boulangerie" (croissants, brioche, bara Ffrengig) a Sangria yn y bar Sbaeneg. Roedd rhaid archebu yn Ffrangeg ac yn Sbaeneg, wrth gwrs. Yn yr Adran Saesneg cafwyd cyfle i chwarae gêm 'Scrabl' enfawr gyda'r enillydd yn cael cerdyn rhodd i wario yn Amazon. Mewn ystafell arall roedd ymarferion perfformiadau gan gast y ddrama 'Each to Their Own'. Bydd cyfle i bawb i ddod i weld y ddrama yn neuadd yr ysgol, ar nos Fercher Tachwedd 22ain a nos Iau Tachwedd 23ain am 7 o'r gloch

Yn yr Adran Ddaeryddiaeth cafwyd gweithgaredd o'r enw 'Traveler IQ Challenge' sy'n profi sgiliau lleoli gwledydd a dinasoedd ar fap o'r byd. Thema o wyliau crefyddol oedd gan yr Adran Addysg Grefyddol gyda disgyblion blwyddyn 8 yn helpu i wneud addurniadau Nadoligaidd i hongian ar y goeden. Yn rhan o ddatiliadau gŵyl Hindŵaidd sef Diwali cafodd yr ymwelwyr gyfle i gael tatŵs lliwgar ar ei llaw.

Yn yr Adran Dylunio a Thechnoleg gwelwyd arddangosfa o waith laser. Roedd disgyblion blwyddyn 10 yn brysur tu hwnt yn creu ceirw pren Nadolig allan o 'pallets". Gwnaeth grŵp o ddisgyblion blwyddyn 7 arddangos eu sgiliau ymarferol drwy baratoi amrywiaeth o seigiau i ddosbarthu i ymwelwyr oedd yn mynd o gwmpas yr ysgol. Hefyd bu cystadleuaeth awyrennau papur i bl 5 a 6. Gwaith clai a pheintio yn yr adran Gelf i orffen y daith yn yr Adran.

Roedd yr Adran Fathemateg yn cynnal Gweithdai Datrys Problemau ac Addysg Ariannol. Mewn grwpiau roedd y disgyblion iau yn cyd-weithio gyda Blwyddyn 12 i ddatrys nifer o broblemau Mathemategol ac i gwblhau Tasgau Rhifedd. Gobeithio fod y sesiwn yma wedi gwneud pobol ifanc yn fwy hyderus a gwybodus wrth weithio gyda materion ariannol.

Yn yr Adran Ddrama roedd perfformiadau Blwyddyn 10 o'r ddrama "i" gan Jim Cartwright ynghyd a gemau Theatr gyda Blwyddyn 7. Cafodd pawb hwyl wrth wyllo a chyfrannu mewn gweithgareddau theatrig.

Roedd y neuadd yn fôr o gân gyda adloniant y band chwythbrennau i ddechrau ac yna aelodau o'r corau yn ymarfer amrywiaeth o ganeuon. Yn y neuadd hefyd cafwyd arddangosfa trampolinio a mentrodd cryn dipyn o ddisgyblion ar y wal ddringo gyda'r adran Addysg Gorfforol. Cafwyd cyfle

hefyd i geisio achub bywyd yn yr adran Iechyd a Gofal a chyfle i brofi adnoddau yr adran Anghenion yn y llyfrgell.

Roedd yr ysgol dan ei sang a phawb wedi mwynhau.

Seiclo i dîm Cymru

Teithiodd Guto Dafydd i wlad Belg ym mis Awst i gystadlu gyda thîm Seiclo Cymru dan 16. Roedd y tîm yn cystadlu mewn dwy ras fawr yn erbyn goreuon o wledydd eraill Ewrop. Dewiswyd 4 o fechgyn a 4 o ferched i gynrychioli, gyda rhan fwyaf o'r rhain flwyddyn yn hyspwr. Yn y ras gyntaf cafodd Guto gyfle i ymosod sawl gwaith ac roedd ar flaen y ras am gyfnod hir cyn gorffen yn y grŵp cyntaf yn y pymtheg uchaf. Ar yr ail ddiwrnod cafodd anlwc ar ôl dechrau'r ras yn dda wrth i'r teiars ar y beic stopio gweithio. Mae nawr yn edrych ymlaen at ymarfer dros y gaeaf er mwyn cystadlu eto blwyddyn nesaf.



Pencampwriaeth tynnu rhaff o dan 19 Prydain

Llongyfarchiadau i Elain Williams o flwyddyn 12 am ennill pencampwriaeth tynnu rhaff dan 19eg oed Prydain yn Mis Awst ac yn ail yn mhencampwriaeth y byd yn Southport ym mis Medi. Camp wych!

Taith Daeryddiaeth Blwyddyn 9 i'r afon Ogwr

Yn ystod y tymor mae disgyblion blwyddyn 9 wedi cael cyfle i wneud gwaith maes ar yr afon Ogwr. Dros gyfnod o ddau ddiwrnod fe gafodd yr holl ddisgyblion gyfle i ddefnyddio eu sgiliau Daeryddol ar yr arfordir.

Cystadleuaeth Saethu Ysgolion Prydain

Llongyfarchiadau i Megan Jones o flwyddyn 10 ar ennill medal arian yng nghystadleuaeth saethu ysgolion Prydain ar Hydref y 4ydd. Pob lwc iddi wrth gynrychioli Prydain yn y rownd nesaf. Llongyfarchiadau hefyd i Jac Lewis a Celyn Yate am ddod yn 5ed a 6ed yn yr un cystadleuaeth.

Chwildroi Baton

Llongyfarchiadau i Cerys Davies ar ennill gwobr gyntaf a dwy trydedd wobwr ym mhencampwriaeth chwildroi y baton yn ddiweddar.

Cystadleuaeth Hwyllo Cymru

Llongyfarchiadau i Aled Llewellyn-Jones ar ei gamp o ennill pencampwriaeth hwyllo Cymru yn ddiweddar. .

Canlyniadau chwaraeon Mis Medi a Hydref

Medi 28

Pêl-droed BL 9 (bechgyn) - YBM 4 - 3 Dyffryn Taf

Rygbi BL 7 - YBM 36 -22 Strade

Rygbi BL 8 - YBM 52 - 7 Strade

4ydd o Hydref

Tîm 1af rygbi

YBM 33 - 5 QEH

6ed o Hydref

Cwpan Y Llywydd

Twrnament pêl-rwyd o dan 18

BM v Dyffryn Aman colli 12-6
BM v Dyffryn Taf ennill 11-7
BM v Llanymddyfri ennill 17-5

Pêl-rwyd

Maes

Bl.11 colli 14-23

Bl.12/13 ennill 22-16

QEHS

Bl.12/13 ennill 20-1

Hoci

Llandoverly

Bl.10 colli 4-0

Bl.12/13 colli 1-0

6ed o Hydref - Bechgyn

Pêl-droed

Tîm A BL 7 YBM 4 - 2 Glanymor

Tîm B BL 7 YBM 6 - 0 Glanymor

BL 10

Bro Dinefwr 0 - 5 YBM

Gemau nos Fercher 18 o Hydref

Rygbi

Tîm 1af

YBM 18 - 12 Y Strade

Pêl-droed

BL9

YBM 6 - O Bryngwyn

Adroddiad BAKE-OFF

Dathlwyd Wythnos Fioleg Y Gymdeithas Fioleg Brenhinol unwaith eto eleni gydag @ymbiol yn gwahodd dau wyddonydd o Barc Genynnau Cymru i drafod eu gwaith. Dr Karen Reed oedd y cyntaf i siarad am ei gyrfa bresennol fel ymchwilydd canser. Tro Rachel Thompson oedd hi wedyn i drafod y defnydd o gelloedd bonyn mewn Meddygaeth. Cafwyd brynhawn difyr yn eu cwmni ac ymunodd disgyblion Lefel A Bioleg Ysgol Y Frenhines Elizabeth gyda ni hefyd.

Ar ddydd Mawrth tro'r disgyblion i gael eu dwylo'n frwnt oedd hi. Y testun dan sylw oedd "DNA - Rhyfeddod bywyd"; gyda'r disgyblion yn cael cyfle i astudio'r molecwl arbennig hwn wrth echdynnu DNA o fefus. Cwis cafwyd ar ddydd Mercher gyda chriw brwd yn brwydro am y wobr eleni. Yn ystod yr wythnos trefnwyd cystadleuaeth ffotograffiaeth o dan y pennawd "Byd Natur" gyda Courtney o F18, Cai o F110 a Daniel o F113 yn fuddugol yn y gwahanol grŵpiau oedran. "Y byd anweledig" oedd sylw gweithgareddau dydd Iau lle gafodd y disgyblion gyfle i edrych ar wahanol sbesimenau o gelloedd ac organebau ungellog o dan ficrosgop. Ar gyfer myfyrwyr Lefel A, gwahoddwyd Jason Williams o Brifysgol Abertawe i drafod ei waith cyffrous, lle mae'n ceisio defnyddio Salmonela i frwydro yn erbyn gwahanol fathau o ganser.



Eleni eto, profodd fore dydd Gwener yn ddiweddglo lliwgar gyda chystadleuaeth "Y Bake-off Biologol." Daeth casgliad anhygoel o gacennau i law, gyda'r eisin a'r ffondant yn cael ei ffurfio mewn i wahanol sbesimenau biologol. Roedd y safon yn eithriadol o uchel gyda'r beirniaid Mrs. Non Knott a Mr Tim Hayes yn penderfynu wedi hir bendroni bod Trystan Tyler a Bethan Davies yn fuddugol ym mlwyddyn 7-9, Megan Tyler gyda'i chynrychiolaeth o ysgyfaint yn ennill ym mlwyddyn 10-11 a Mared a Gwenllian yn dod i'r brig yng nghystadleuaeth y Chweched a'r Staff.

Mae lluniau'r holl gynigion ar safle Trydar yr Adran @ybmbiol ac ar safle'r ysgol @YGGBM. Diolch i bawb a bu'n ymwneud â'r holl weithgareddau.